

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Ionawr 2017

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Polisi i gyflwyno rheoliadau a chanllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau ardal sy'n ofynnol o dan Ran 2, Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a swyddogaethau cymorth i'r teulu integredig o dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(wedi'i gwblhau gan Uned y Gymraeg): 17/03/01</i>			
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Tom Cleaver			
Dyddiad:	Ionawr 2017			
Arweinydd polisi:	Chris Stevens			
Manylion cyswllt:	Tom.cleaver@wales.gsi.gov.uk			
Math o Raglen/Prosiect ☒ Polisi ☒ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☐ Arall (Nodwch isod) ☐ Prosiect neu raglen ☐ Ymchwil, gwerthusiad ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau				
Costau: Beth yw cost ragamcanol oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yw'n llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn
☐	☐	☒	☐	☐

O'r uchod, rhowch fanylion unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
☐	☐	☐	☐	☐	☒

Dyddiadau cerrig milltir allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

I gefnogi Adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r canllawiau a'r rheoliadau canlynol wedi'u datblygu:

- Canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â chynlluniau ardal o dan adran 14A ("canllawiau cynllunio ardal")
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 ("rheoliadau cynllunio ardal")
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) (Cymru) 2017 ("rheoliadau partneriaeth 2017")

Dyddiadau cerrig milltir allweddol

Rheoliadau cynllunio ardal a rheoliadau partneriaeth 2017 a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol – mis Chwefror 2017.

Dadl ar Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017 – 28 Mawrth 2017.

Dyddiad Dod i Rym ar gyfer rheoliadau a chanllawiau statudol yn gysylltiedig â chynlluniau ardal o dan Adran 14A - 1 Ebrill 2017.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n cynrychioli 'llwyddiant'?

Mae'r asesiad hwn yn ymwneud â chyflwyno canllawiau statudol a rheoliadau ategol ar gynlluniau ardal sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn sefyll fel atodiad i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gwblhawyd yn Rhan 2 o Ddeddf 2014 Act, sydd ar gael yn:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/assessments?skip=1&lang=cy>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Y Ddeddf') yw creu fframwaith sy'n moderneiddio cyfreithiau'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn dod â nhw at ei gilydd. Nod y Ddeddf yw cynyddu'r pwyslais ar gamau ataliol, gan ddod â phobl yn nes at benderfyniadau yn ymwneud â gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, ac ymdrin â heriau newid economaidd a newid o ran demograffeg.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn rhoi diffiniad o lesiant ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno datganiad o'r canlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni.

Cynlluniau ardal - Canllawiau statudol a rheoliadau

Mae Adran 14A o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi cynllun ar ôl cynnal asesiad (a elwir yn "asesiad poblogaeth") o anghenion o dan adran 14 o Ddeddf 2014. Mae'n rhaid i'r cynllun hwn (a elwir yn "gynllun ardal") nodi, ymhlith pethau eraill, ystod a lefel y gwasanaethau y mae'r sefydliad yn cynnig eu darparu, neu'n trefnu iddynt gael eu darparu, mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth.

I gefnogi Adran 14A, mae'r canllawiau a'r rheoliadau canlynol wedi eu datblygu:

- Canllawiau statudol yn gysylltiedig â chynlluniau ardal o dan adran 14A ("y canllawiau cynllunio ardal")
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) Rheoliadau 2017 ("y rheoliadau cynllunio ardal")
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) (Cymru) 2017 ("rheoliadau partneriaeth 2017")

Nod y polisi yw bod cynlluniau ardal yn nodi yn eglur ystod a lefel y gwasanaethau sydd i'w darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r anghenion a nodwyd yn yr adroddiadau ar yr asesiadau poblogaeth, gyda phwyslais ar wasanaethau integredig. Bydd cynlluniau ardal felly yn cyfrannu at alluogi'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth effeithiol a gwasanaethau cymorth ar gyfer gofalwyr ar draws pob rhanbarth.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi eu hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na fydd* y polisi'n cael ei weithredu?

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gefnogi'r broses graffu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nododd yr asesiad o effaith bod y Bil wedi'i gynllunio er mwyn creu system decach a mwy cyfiawn ar gyfer yr holl bobl sy'n gymwys i dderbyn gofal a chymorth, a bod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau a ddarperir.

Mae egwyddorion allweddol 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' wedi eu hymwreiddio yn y Ddeddf, gan gynnwys ei bod yn ofynnol i'r holl bobl a'r sefydliadau sy'n rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fod yn ystyriol o hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Ystyriodd asesiadau effaith a gynhaliwyd wrth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar y Bil y dewis o beidio â gweithredu'r Ddeddf. Nododd yr asesiadau hyn effeithiau negyddol sylweddol pe na byddai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys anghynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau mewn demograffeg, bod y gwasanaethau yn gynyddol yn canolbwyntio ac yn gyfyngedig i'r rhai hynny ar lefel gritigol, a diffyg unrhyw ymyrraeth gynnar a gwaith atal yn y system.

Cynlluniau ardal- canllawiau statudol a rheoliadau

Ystyriwyd sawl dewis o ran y ddeddfwriaeth ategol a ddatblygwyd i gefnogi gofynion cynllun ardal 14A yn y Ddeddf. Rhestrir y dewisiadau hyn yn rhan o'r asesiadau effaith rheoleiddiol a gwblhawyd ar gyfer y rheoliadau cynllunio ardal a rheoliadau partneriaeth 2017. Gellir cael copïau gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

I roi sylwadau ar gynnwys y canllawiau cynllun ardal drafft, gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru i ddigwyddiad yng Nghaerdydd ar 9 Medi 2016 i drafod cynnwys ymgynghoriad y cynllun ardal yn fanwl ac amlygu unrhyw faterion y mae angen eu hegluro cyn i'r ymgynghoriad gau. Roedd y sylwadau o'r digwyddiad hwn yn adlewyrchu'n fras y sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan ac roedd yr awgrymiadau yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â manylion, mân ychwanegiadau a diwygiadau i'r testun. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn gan y barnwyd eu bod yn unol â safbwynt eang y polisi.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - laith fyw: laith byw?

Mae'n rhaid i adroddiadau'r asesiadau poblogaeth a gynhelir cyn gweithredu'r

cynlluniau ardal nodi'r camau gofynnol ar gyfer darparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, dylai cynlluniau ardal ar y cyd nodi sut y bydd ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn adroddiadau'r asesiadau poblogaeth yn cael eu darparu'n benodol. Dylai hyn gefnogi gwelliannau o ran cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ardal, rhan allweddol o iaith fyw: iaith byw.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Ddeddf yn ymdrin â llawer o'r amcanion a nodir yn 'iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17'. Er enghraifft, mae'r rheoliad yn gysylltiedig ag asesu angen unigolion o dan Ran 3 o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru), yn darparu ar gyfer 5 o'r amcanion hynny, yn benodol:

- Cynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- Cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned
- Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithlu
- Gwella gwasanaethau yn y Gymraeg i ddinasyddion
- Cryfhau seilwaith yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd gyffredinol yn adran 6(2)(c) ei bod yn ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i briodolddau, diwylliant a chredoau'r unigolyn, gan gynnwys iaith.

Mae prif egwyddorion 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' wedi eu hymwreiddio yn y Ddeddf, sef ei bod yn ofynnol i'r holl bobl a'r sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fod yn ystyriol o hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Roedd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o effeithiau'r Ddeddf ar y Gymraeg mewn Memorandwm Esboniadol.

Datgelodd yr asesiad nad oes unrhyw effeithiau negyddol yn debygol ar yr iaith a chan bod y Ddeddf wedi'i chynllunio i greu system decach a mwy cyfiawn ar gyfer yr holl bobl sy'n gymwys i dderbyn gofal a chymorth, bod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn bodoli mewn gwasanaethau a ddarperir.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg a nodwyd gennych yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Bydd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau ardal ar y cyd, o ran y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid i'r adroddiadau ar yr asesiadau poblogaeth a gynhelir cyn gweithredu cynlluniau ardal nodi'r camau gofynnol er mwyn darparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, dylai cynlluniau ardal ar y cyd nodi sut y bydd ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu darparu'n benodol. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol trwy gefnogi gwelliannau wrth gynllunio darpariaeth yn Gymraeg mewn ardal.

Yn fwy cyffredinol, mae'r effaith gyffredinol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r Ddeddf yn gadarnhaol gan ei bod yn cynnwys dyletswydd gyffredinol yn 6(2)(c) ei bod yn ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, gan gynnwys iaith.

I'r perwyl hwn rydym yn disgwyl y bydd pobl yn gallu cael yn rhesymol gwasanaethau gofal a chymorth yn y Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwn yn cynnwys 'sicrhau hawliau a hawlogaethau'. I lawer o siaradwyr Cymraeg, bydd sicrhau hawliau a hawlogaethau yn golygu cael defnyddio eu hiaith eu hunain a fydd yn eu galluogi i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.

O dan delerau Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru cynhaliwyd asesiad o effeithiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ystod proses y Bil. Ar yr adeg honno, nododd yr asesiad yr ystyrid bod effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn annhebygol. Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i greu system decach a mwy cyfiawn i'r holl bobl sy'n gymwys i gael gofal a dylai gefnogi cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau a ddarperir. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn bwrw ymlaen â llawer o gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: mae'n rhaid i'r holl bobl a'r sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi sylw i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag unrhyw Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

Mae ymrwymiad wedi ei roi gan y Gweinidogion y bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n sail i'r Ddeddf. O ganlyniad i hyn, mae'r egwyddorion a nodir yn y Ddeddf yn sail i'r holl Reoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd gyffredinol yn 6(2)(c) ei bod yn ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i briodoleddau, diwylliant a chredoau'r unigolyn gan gynnwys iaith

Heblaw am effeithiau cadarnhaol cyffredinol yn sgil y Ddeddf, dylai'r cynlluniau ardal eu hunain gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae canllawiau statudol y cynlluniau ardal yn nodi ei bod yn ofynnol i adroddiadau'r asesiadau poblogaeth

nodi'r camau gofynnol er mwyn darparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodir fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd nodi sut bydd ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn adroddiadau'r asesiadau poblogaeth yn cael eu darparu'n benodol.
Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?
Mae'r Ddeddf yn gymwys i'r holl bobl yng Nghymru y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalmwy'r y mae arnynt angen cymorth. Bydd gan ddyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 oblygiadau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, ac i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a'u gofalmwy'r y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth eu hunain. Egwyddorion y Ddeddf yw sail y canllawiau, ac mae'n nodi ei bod yn ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i briodolddau, diwylliant a chredoau yr unigolyn gan gynnwys iaith. I'r perwyl hwn rydym yn disgwyl i bobl allu cael yn rhesymol yr holl wasanaethau perthnasol a nodir mewn cynlluniau ardal, pe byddent yn dymuno gwneud hynny. Mae'r canllawiau a'r rheoliadau cynllun ardal drafft wedi eu datblygu trwy ymgynghori ag aelodau o'r rhwydwaith asesu poblogaeth a byrddau partneriaeth rhanbarthol a oedd yn cynnwys aelodau o amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.
Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na nodwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnodion. (Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)
Nodwyd effeithiau cadarnhaol, fel y nodwyd uchod.
Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, nodi rhestr rhanddeiliaid neu ymgynghori, angen cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?
Yn rhan o'r strategaeth ddilynol i 'Mwy Na Geiriau' nododd swyddogion y Gymraeg ei bod yn ofynnol ystyried ymhellach a oes angen mewnosod cyfeiriadau eraill at safonau'r Gymraeg yn y canllawiau drafft. Roedd y ddogfen ymgynghori a chwestiynau ar y canllawiau drafft ar gael yn Gymraeg ar wefan allanol Llywodraeth Cymru. Bydd y canllawiau terfynol ar gael yn

Gymraeg hefyd.
CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU
<u>Crynodeb o'r Asesiad o Effaith</u>
Rhowch grynodeb o'r asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.
Effeithiau cadarnhaol:
Mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sail i'r canllawiau a'r rheoliadau sy'n nodi ei bod yn ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i briodolddau, diwylliant a chredoau'r unigolyn, gan gynnwys iaith. Disgwylir i unigolion sy'n paratoi cynlluniau ardal a fydd yn hysbysu darpariaeth swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol sicrhau y gall unrhyw un sydd o fewn cwmpas y Ddeddf yn eu hardal gael yn rhesymol gwasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r canllawiau yn nodi y dylai'r cynlluniau ardal ar y cyd nodi sut y bydd ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn adroddiadau'r asesiadau poblogaeth yn cael eu darparu'n benodol. Dylai hyn sicrhau bod gwasanaethau a nodir yn y cynlluniau ardal yn cwmpasu anghenion Cymraeg yn yr ardal honno. Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r cynlluniau ardal ar y cyd gynnwys manylion y gwasanaethau atal a ddarperir mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd yn adroddiadau'r asesiadau poblogaeth fel sy'n ofynnol gan Ran 2 y Ddeddf. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y caiff unrhyw wasanaethau atal eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.
Effeithiau negyddol:
Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai cynlluniau ardal ar y cyd nodi sut y bydd ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd fel bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn adroddiadau'r asesiadau poblogaeth yn cael eu darparu'n benodol. Gallai'r broses hon nodi heriau ar gyfer partneriaid o ran mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a nodwyd yn y cynlluniau ardal, er enghraifft, bodloni'r galw posibl i ddarparu gwasanaethau integredig trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle wedi cynyddu?
Daeth y Safonau'r Gymraeg newydd a ddatblygwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i rym o 30 Mawrth 2016. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae egwyddorion allweddol 'Mwy na geiriau: Fframwaith

Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol wedi eu hymwreiddio yn y Ddeddf, gan gynnwys ei bod yn ofynnol i'r holl bobl a'r sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi sylw i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Bydd ymwreiddio'r egwyddorion allweddol hyn yn y Ddeddf, ynghyd â'r gofyniad i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf, gan gynnwys y rhai hynny sy'n llunio cynlluniau ardal, roi sylw i briodoleddau, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith) yn sicrhau yr anogir awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu'r Gymraeg i'r holl ddinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Yn 2011, cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg adroddiad o'r enw '*Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol*' a oedd yn amlinellu'r canlyniadau i bobl nad oeddent yn derbyn gofal yn yr iaith o'u dewis. Nododd yr adroddiad bod "tystiolaeth fyd eang yn dangos effaith niweidiol rhwystrau iaith ym maes gofal – diffyg mynediad i wasanaethau cymdeithasol; bodlonrwydd y defnyddiwr; diffyg perthynas therapiwtig; anawsterau cael cydsyniad; problemau dilyniant gofal wrth i'r defnyddiwr gael ei gyfeirio o un asiantaeth i'r llall; diffyg ansawdd y gofal; diogelwch y defnyddiwr; statws iechyd y defnyddiwr; costau'r gofal – costau personol i'r defnyddiwr a chostau ariannol i'r gwasanaeth".

Cyhoeddwyd adroddiad o'r enw '*Profiadau Siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau Iechyd a Gofal*' gan IAITH yn 2012. Gwnaethpwyd hynny ar ran Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru. Roedd yn canolbwyntio ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y pedwar grŵp blaenoriaeth a nodwyd (plant; pobl hŷn; defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai hynny â dementia, a phobl ag anableddau dysgu), ac roedd yr ymchwil yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng iaith a gofal.

Roedd yn archwilio enghreifftiau a oedd yn awgrymu y gallai ansawdd y gofal i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed gael ei effeithio gan fethiant i gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis. Ymdrinnir hefyd â swyddogaeth hanfodol iaith fel dull o asesu a ffurfio diagnosis ac ystyrir bod y ddibyniaeth ar gyfieithu, gan ddefnyddio aelodau o'r teulu i gyfleu gwybodaeth rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r gweithiwr proffesiynol yn llawn problemau a allai effeithio ar y math o asesiad a gynhelir. I ddefnyddwyr a gofalwyr, gwelir bod y gallu i gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis yn effeithio ar berthnasoedd clinigol a therapiwtig.

Canfu'r ymchwil hefyd bod yr ymatebwyr o'r farn bod y ddarpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg mewn llawer o ardaloedd yn aml yn anhrefnus a phrin y cânt eu cynllunio. Nid oes gan aelodau unigol o staff ar lawer o lefelau yr hyder i ddefnyddio

eu sgiliau Cymraeg mewn cyd-destun proffesiynol; gallai asiantaethau cyflogi fethu â chydabod y sgiliau hyn a rhoi gwerth arnynt, ac yn sgil hyn gall sgiliau iaith unigol aros yn gudd a heb eu defnyddio. Mae'n ymddangos mai'r diwylliant pennaf yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yw'r disgwyliad y bydd defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr yn nodi'r angen ac yn creu y galw ar gyfer gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach nag ar y sail bod gan ddarparwyr gwasanaeth ddyletswydd i'w cynnig a'u darparu. I lawer o unigolion sy'n agored i niwed nad ydynt wedi'u grymuso yn y grwpiau blaenoriaeth yr oedd yr ymchwil yn eu cwmpasu, mae'r gallu i fynegi eu hangen a chreu galw y tu hwnt i'w gallu. Maent yn aml yn ddibynnol ar ofalwyr a theulu i wneud hyn ar eu rhan. Nid oes gan lawer ohonynt y gefnogaeth hon. Mae ar y defnyddwyr gwasanaeth mwyaf ynysig ac agored i niwed angen mynediad at wasanaethau a systemau sylfaenol sy'n gadarn ac sy'n ddigon dibynadwy i gydnabod eu hanghenion iaith ac ymateb yn briodol. Mae parchu urddas unigolion yn gwneud hyn yn ofynnol.

Mae adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn darparu tystiolaeth o ymchwil a wnaed gan Lais Defnyddwyr Cymru yn 2010, "Gwasanaethau: defnyddwyr â'r iaith Gymraeg". Mae'n nodi:

"Gan orffen ar ddarn ymchwil yn ymwneud â defnyddwyr, gwnaeth Llais Defnyddwyr Cymru arolwg o bersbectif siaradwyr Cymraeg yn 2010. Gofynnwyd i sampl o 759 o siaradwyr Cymraeg am eu barn ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg. Wrth drafod defnyddio'r Gymraeg roedd dros chwarter yn nodi nad oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael: *"Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella gwasanaethau cyfredol, yr awgrym mwyaf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat oedd sicrhau bod mwy o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Dywedodd 28% o'r holl ymatebwyr mai dyma oedd y rheswm nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg fwy wrth ymdrin â'r sector cyhoeddus"* O'r gwaith ansoddol ddigwyddodd fel rhan o'r gwaith ymchwil yma canfuwyd hefyd nad oedd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig."

Mae 'Mwy na Geiriau' yn cydnabod mai cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth; a ddiffinnir fel y "cynnig rhagweithiol". Mae'r ddeddfwriaeth, y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r fframwaith mesur perfformiad yn sicrhau bod y 'cynnig rhagweithiol' yn rhan annatod o wella canlyniadau llesiant i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Ym mis Mawrth 2016 daeth Safonau'r Gymraeg newydd i rym ar gyfer cyrff gwasanaethau cyhoeddus, a oedd yn cyd-fynd â chyfnod gweithredu Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru). Roedd y safonau newydd hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg ar Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Roedd hyn yn ysgogiad o'r newydd i gyrrff gwasanaethau cyhoeddus i gofleidio'r Gymraeg a'i

chynnwys mewn gwasanaethau dyddiol a chaiff ei hadlewyrchu ar gyfer pobl o bob oed o blant bach i bobl hŷn.

Mae'r sail dystiolaeth bresennol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio'r broses ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd o'r effaith a gaiff gwasanaethau cymdeithasol ar fywydau pobl a pha un a yw'r gwasanaeth yn gwella canlyniadau i bobl. Mae gan y dyletswyddau ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Act oblygiadau i awdurdodau lleol a chyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ac i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalu'r y mae arnynt angen cymorth yng Nghymru.

Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddarparu gwasanaeth â mwy o bwyslais penodol sy'n briodol i bob unigolyn, gan gynnwys darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r cynnig rhagweithiol. Bydd y fframweithiau mesur perfformiad a chanlyniadau o dan y Ddeddf yn mesur effaith hyn.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu ar sail yr asesiad o effaith/risg?

Cadarnhaol: ☒
Negyddol: ☐
Niwtral: ☐
Anhysbys: ☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

- | | |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Amherthnasol

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Yn rhan o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y ddwy gyfres o Reoliadau drafft a'r canllawiau cynllun ardal drafft, rhwng 11 Gorffennaf 2016 a 3 Hydref 2016. Ynghyd â chwestiynau penodol ar gynnwys y canllawiau drafft, cafodd cwestiwn cyffredinol ei gynnwys a oedd yn caniatáu i randdeiliaid nodi sylwadau am unrhyw faterion eraill yr oeddynt yn dymuno eu hamlygu, er enghraifft effeithiau posibl y Cod drafft ar y Gymraeg.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?
Derbyniwyd 27 o ymatebion ysgrifenedig sylweddol i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o sefydliadau statudol, grwpiau trydydd sector a chyrff proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau ieuchyd unigol, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a luniodd ymateb ar y cyd. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan ac roedd yr awgrymiadau yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â manylion, mân ychwanegiadau a diwygiadau i'r testun. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn gan y barnwyd eu bod yn unol â safbwynt eang y polisi. Ni chodwyd unrhyw broblemau na phryderon ynglŷn â'r iaith Gymraeg mewn unrhyw un o'r 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad, felly ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'r cod o ran iaith.
Sut y byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?
Mae'n rhaid llunio'r cynllun ardal ar y cyd cyntaf erbyn 1 Ebrill 2018 a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar adeg ei gyhoeddi. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru graffu ar y cynlluniau sydd wedi eu cwblhau a monitro pa mor effeithiol y mae'r cynlluniau ardal wedi ymateb i unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr asesiadau poblogaeth.
Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?
Mae'n ofynnol o dan Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 i bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol baratoi adroddiad blynyddol, a'r cyntaf ohonynt i fod wedi ei gwblhau erbyn 1 Ebrill 2017. Yn y dyfodol rydym yn disgwyl i adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol fod yn fwy sylweddol wrth nodi sut y mae partneriaid wedi ymateb i'w hadroddiadau ar yr asesiadau poblogaeth a sut y maent yn gweithredu'r cynlluniau ardal ar y cyd.
Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg
Amherthnasol

4. Datganiad

Arweinydd polisi: *Dileer fel y bo'n briodol: *Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan nodwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.
Enw:
Tom Cleaver
Adran:
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad(au):
Ionawr 2017
Llofnod:
Tom Cleaver
Dyddiadau adolygu arfaethedig: Ionawr 2019

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	
Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect ar y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ailasesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.	
Llofnodwyd Chris Stevens (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Ionawr 2017